SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

Rt Hon Yvette Cooper,
Home Secretary
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ein Cyf / Our Ref: AD/HW/2402

09 Hydref / October 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cartref,

Dear Home Secretary,

**Gynnydd cyflwyno model gweithredu cenedlaethol ar gyfer ymchwiliadau treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill mewn heddluoedd sydd wedi'i fabwysiadu'n barod.**

**Progress to introduce a national operating model for rape and other serious sexual offences investigations in early adopter police forces.**

Fel sy'n ofynnol gan statud, rwyf yn ysgrifennu atoch ynghylch adroddiad Arolwg Arolygiaeth Heddluoedd Ei Fawrhydi ar gynnydd cyflwyno model gweithredu cenedlaethol ar gyfer ymchwiliadau treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill mewn heddluoedd sydd wedi'i fabwysiadu'n barod.

As required by statute I am writing to you regarding His Majesty's Inspectorate of constabulary's Inspection report on progress to introduce a national operating model for rape and other serious sexual offences investigations in early adopter police forces.

Mae'r adroddiad wedi nodi y gall Ymgyrch Soteria drawsnewid y ffordd y mae heddluoedd yn rheoli ymchwiliadau trais a throseddau rhywiol difrifol (RASSO). Roedd Heddlu Gogledd Cymru (NWP) yn un o'r 14 heddlu wnaeth fabwysiadu'r model ar y dechrau'n deg er mwyn arbrofi Ymgyrch Soteria a gwella profiad dioddefwyr y System Cyfiawnder Troseddol.

The report has identified that Operation Soteria can transform the way that forces handle rape and serious sexual offences (RASSO) investigations. North Wales Police (NWP) were one of 14 early adopter forces to trial Operation Soteria and improve the victims experience of the Criminal Justice System.

Mae'r adroddiad wedi arwain at un ar ddeg o argymhellion hefo pump yn cael eu cyfeirio at Brif Gwnstabliaid. Mae'r cyntaf o'r pum argymhelliad yn gofyn bod pob Prif Gwnstabl yn sicrhau bod personél sy'n gweithio ar droseddau treisio a throseddau rhyw difrifol eraill yn derbyn

The report has resulted in eleven recommendations with five being directed at Chief Constables. The first of the five recommendations requests that all Chief Constables make sure that personnel working on rape and other serious sexual offences receive

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

hyfforddiant a gymeradwyir gan y Coleg Plismona ar ymchwilio i achosion gair am air. Rwyf yn hyderus bod gan HGC galendr hyfforddi helaeth wedi'i baratoi ar gyfer y flwyddyn nesaf sy'n cynnwys y rhaglen datblygu ymchwiliadau troseddau rhywiol (SSAIDP). Mae pob ditectif o fewn yr Uned Amethyst, sef tîm treisio a throseddau rhywiol arbenigol HGC, wedi cwblhau hyfforddiant RISDP gan y Coleg Plismona. Rwyf yn fodlon bod yr heddlu wedi cwblhau'r argymhelliad hwn.

Mae'r arolygiaeth wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl sicrhau bod eu heddlu'n defnyddio'r diffiniad newydd o rai o dan amheuaeth mynych am RASSO er mwyn eu hadnabod a'u rheoli nhw. Mae'r heddlu'n aros i'r diffiniad gael ei gytuno gan Uned ar y Cyd Soteria, y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Comisiynydd Dioddefwyr. Unwaith y bydd y diffiniad wedi'i gyhoeddi, byddaf yn monitro cynnydd yr heddlu wrth fabwysiadu'r diffiniad newydd fel rhan o'm gwaith craffu a dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

Gofynnwyd i heddluoedd wneud yn siŵr eu bod yn blaenoriaethu adnabod ac amharu ar bobl sydd o dan amheuaeth o RASSO. Mae hyn yn cynnwys, rheoli ac ymateb i achosion o dorri mechnïaeth, gorchmynion gwarchod a defnyddio gorchmynion troseddol a sifil er mwyn mynd i'r afael hefo achosion RASSO. Rwyf yn fodlon bod gan yr heddlu fonitro priodol ar waith yn fforymau'r heddlu a mesur dangosyddion cyflawniad allweddol.

College of Policing approved training on investigating word on word cases. I am assured that NWP has an extensive training calendar prepared for next year which includes the sexual offence investigation development programme (SSAIDP). All Detectives within Amethyst, the NWP specialist rape and sexual offences team have completed the RISDP training from the College of Policing. I am satisfied that the force has completed this recommendation.

The inspectorate has requested that the Chief Constable ensures that their force use the new definition of repeat RASSO suspects to identify and manage them. The force is waiting for the definition to be agreed by the Soteria Joint Unit, College of Policing, National Police Chief’s Council and the Victims Commissioner. Once the definition has been published, I will monitor the force’s progress in adopting the new definition as part of my scrutiny and holding the Chief Constable to account.

Forces have been asked to make sure that they prioritise identifying and disrupting RASSO suspects. This includes, managing and responding to breaches of bail, protection orders and the use of criminal and civil orders to tackle RASSO cases. I am content that the force has appropriate monitoring in place at force forums and the measuring of key performance indicators.

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

Mae'r adroddiad wedi nodi nad ydy heddluoedd yn defnyddio eu grymoedd er mwyn cadw olion bysedd a DNA mewn achosion RASSO lle nad ydy'r un o dan amheuaeth wedi'u cyhuddo na'u heuogfarnu eto. Mae'r pedwerydd argymhelliad wedi gofyn i heddluoedd sicrhau bod ganddynt brosesau da ar waith ar gyfer gwneud cais i gadw olion bysedd a DNA. Ar hyn o bryd mae HGC yn ystyried dichonoldeb yr argymhelliad hwn. Byddaf yn gofyn am ddiweddariad cyn y dyddiad cau trwy fy Mwrdd Gweithredol Strategol.

The report has identified that forces don’t use their powers to retain fingerprints and DNA in RASSO cases where the suspect is yet to be charged or convicted. The fourth recommendation has requested that forces make sure that they have good processes in place for applying to retain fingerprints and DNA. NWP are currently considering the feasibility of this recommendation, and I will request an update prior to the deadline via my Strategic Executive Board.

Mae'r argymhelliad terfynol yn gofyn bod pob prif gwnstabl, fel rhan o fabwysiadu'r Model Gweithredu Cenedlaethol (NOM), yn datblygu proffil problem RASSO, yn cynnwys bwrdd glanio'r Model yn eu cyflawniad a'u monitro a mabwysiadu dangosyddion cyflawniad allweddol y cytunwyd arnynt gan Uned ar y Cyd Soteria. Rwyf yn fodlon bod gwaith ar y gweill er mwyn cwblhau'r argymhelliad hwn. Mae gan HGC broffil problem RASSO eisoes a grëwyd yn 2023. Mae'r Heddlu wedi ymgynghori hefo arweinydd prosiect Ymgyrch Soteria er mwyn creu'r Dangosyddion Cyflawniad Allweddol perthnasol er mwyn gwerthuso cynnydd y prosiect hwn.

The final recommendation asks that all Chief constables as part of adopting the National Operating Model (NOM), develop a RASSO problem profile, include the NOM flight deck within their performance and monitoring and adopt key performance indicators that are agreed by the Soteria Joint Unit. I am satisfied that work is underway to complete this recommendation. NWP already has a RASSO problem profile which was produced in 2023. The Force have liaised with the Operation Soteria project lead to create the relevant KPI’s to evaluate the progress of this project.

Byddaf yn monitro ac yn craffu'r heddlu wrth gwblhau'r argymhellion hyn yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol lle rwyf yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol.

I will monitor and scrutinise the force in completing these recommendations at my Strategic Executive Board where I hold the Chief Constable to account.

01492 805486
OPCC@northwales.police.uk
www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

www.northwales-pcc.gov.uk

Glan y Don,
Bae Colwyn / Colwyn Bay
LL29 8AW

Yn gywir     Yours sincerely

Andy Dunbobbin
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru /North Wales Police and Crime Commissioner

01492 805486

OPCC@northwales.police.uk

www.northwales-pcc.gov.uk

O 25 Mai 2018 ymlaen mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i brosesu gwybodaeth bersonol wedi newid. Gelwir y rhain yn Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol ac "Eich Hawliau" o dan RhDDC.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg pe dymunir. Ni fydd gohebu yn Gymraeg gyda'r swyddfa yma yn arwain at oedi.

As from 25 May 2018 the regulations relating to processing personal information has changed. These are called General Data Protection Regulations (GDPR). Please read our Privacy Policy which contains information on how we process your personal information and "Your Rights" under GDPR.

We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to correspondence in Welsh if desired. Corresponding in Welsh with this office will not lead to delay.